



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



Llywodraeth Cymru

## Tuag at Ddyfodol Diwasttraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Datganiad Sefyllfa drafft Llywodraeth Cymru  
ar Wastraff Amaethyddol

**Mehfin 2014**



## **Cynnwys**

1 – Gwastraff Amaethyddol yng Nghymru .....	2
2 – Cynlluniau sector.....	3
3 – Y sefyllfa gyfredol.....	3
4 - Rheoleiddio.....	13
5 – Camau ar waith i sicrhau bod gwastraff amaethyddol yn cael ei reoli'n fwy cynaliadwy .....	19
6 – Ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar wastraff amaethyddol	20

Atodiad A – Diffiniadau.....	22
------------------------------	----

## 1 – Gwastraff Amaethyddol yng Nghymru

Datblygwyd y datganiad sefyllfa drafft hwn gyda chyfraniad ystod eang o rai â diddordeb, a chynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid er mwyn denu mewnbwn ar gyfer y ddogfen.

Byddai'n ddefnyddiol i'r sawl sy'n darllen y papur hwn gyfeirio at y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru (CoGAP). Mae Rhan 3, Adran 7 y CoGAP yn cynnwys gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â rheoli gwastraff amaethyddol, ynghyd â gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol ar arfer gorau. Mae copi o'r CoGAP i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru: -

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/codesofgoodagripractice/110420cogapintro/?skip=1&lang=cy>

Y man cychwyn ar gyfer rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau'n effeithlon yn y sector hwn yw Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE 2008/98/EC. Mae hon yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar aelod-wladwriaethau i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl drwy atal neu leihau effeithiau niweidiol cynhyrchu a rheoli gwastraff a thrwy leihau effeithiau cyffredinol y defnydd o adnoddau a'u defnyddio'n fwy effeithlon (Erthygl 1). Mae'r Gyfarwyddeb (Erthygl 28) yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau gynhyrchu cynlluniau rheoli gwastraff. Trosglwyddwyd y gofyniad i Lywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff cenedlaethol drwy reoliad 7 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Rhagnodir cynnwys cynllun rheoli gwastraff yn rheoliad 8 ac Atodlen 1 y Rheoliadau.

Cyhoeddwyd Strategaeth Wastraff Genedlaethol gyntaf Cymru, 'Yn Gall Gyda Gwastraff' yn 2002. Roedd yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r strategaeth ar ôl 5 mlynedd. Yn dilyn yr adolygiad, cyhoeddwyd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', dogfen y strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru ar 21 Mehefin 2010.

Mae'r canlyniadau, y polisiâu a'r targedau a amlinellir yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn helpu i gyflawni 'Cymru'n Un: Un Blaned' ac yn datblygu'r rhai a gyflwynwyd yn 'Yn Gall gyda Gwastraff' ymhellach. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddorion a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE gyda'i phwyslais ar atal gwastraff a gwneud yr UE yn gymdeithas sy'n gwneud defnydd da o ailgylchu. Ni fu unrhyw newid cyfeiriad, ond mae'r uchelgeisiau wedi'u hystyngiadau ymhellach er mwyn cyflawni canlyniadau datblygu cynaliadwy.

Caiff 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ei gyflwyno drwy gyfres o Gynlluniau Sector a fydd yn ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer pob sector allweddol, lle ystyrir bod angen camau gweithredu newydd. Mae'r rhain yn rhan o gynllun rheoli gwastraff Cymru sy'n ateb y gofynion a nodwyd yn Erthygl 28 y Gyfarwyddeb Fframwaith ddiwygiedig.

Nododd 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Cynlluniau Sector canlynol:

- Trefol.
- Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.
- Diwydiannol a Masnachol.
- Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd.
- Adeiladu a Dymchwel.
- Sector Cyhoeddus.
- Amaethyddiaeth.

Yn ogystal â'r cynlluniau sector, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhaglen atal gwastraff (fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 29 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff).

## 2 – Cynlluniau sector

Cynlluniau gweithredu 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw'r cynlluniau sector. Maent yn disgrifio rôl y sector, Llywodraeth Cymru ac eraill o ran cyflawni'r canlyniadau, y targedau a'r polisïau sydd yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Cawsant eu datblygu gyda chynrychiolwyr y sectorau i wneud yn siŵr y gellir eu cyflawni ac y byddant yn ddogfennau byw, hyblyg sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynlluniau yn:

- Diffinio'r hyn y bydd y cynllun sector yn ei gynnwys a phwy sy'n rhan o'r sector hwnnw.
- Amlinellu perfformiad y sector ar hyn o bryd, yn cynnwys rhoi manylion am y mathau o wastraff, ei faint a'i darddiad, a'r modd o'i reoli.
- Disgrifio sut y cymhwysir yr egwyddorion, y canlyniadau, y polisïau a'r targedau a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' ar gyfer y sector.
- Nodi'r bwlch rhwng y perfformiad presennol a'r hyn sy'n ofynnol i'r sector ei wneud er mwyn cyflawni'r polisïau a'r targedau a amlinellwyd yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.
- Nodi'r camau cyfredol sydd ar waith a chamau newydd sy'n angenrheidiol ar gyfer llenwi bylchau yn y perfformiad.

## 3 – Y sefyllfa gyfredol

Mae'r sector amaethyddol yng Nghymru yn cwmpasu tua 41,000 o ddaliadau ar oddeutu 1.7m hectar o dir (80% o Gymru).

### 3.1 – Gwastraff a gynhyrchir ar ffermydd

Mae'r mathau o wastraff amaethyddol a gynhyrchir ar ffermydd yn gallu bod yn amrywiol iawn. Ceir diffiniadau o wastraff amaethyddol yn **Atodiad A**.

**Mae'n bwysig nodi nad gwastraff yw tail, slyri ac elifion silwair o'u defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtaith. Mae hyn yn cynnwys eu defnydd ar fferm wahanol i'r un y tarddant ohoni. Fodd bynnag, caiff tail neu slyri sy'n cael ei fwydo i system dreulio anaerobig ar fferm ei ddsbarthu fel gwastraff wedi'i reoli, a bydd gofyn cael esemptiad neu drwydded ar ei gyfer.**

Cyfyngedig yw'r data manwl sydd i'w gael yng Nghymru ynglŷn â pha fathau a faint o wastraff amaethyddol sy'n cael ei gynhyrchu, ei waredu, ei aildefnyddio neu ei ailgylchu 'ar lawr gwlad'.

Cynhyrchwyd y data diweddar mwyaf perthnasol gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer datganiad Eurostat 2010 yn defnyddio'r Model Amcangyfrif Gwastraff Amaethyddol (Marcus Hodges Environment a BDB Associates) a welir yn Nhabl 1. Datblygwyd y model dros nifer o flynyddoedd i roi amcangyfrifon o faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y sector amaethyddol. Fe'i crëwyd yn wreiddiol ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd yn 1998, a'i ddatblygu, ei addasu a'i ymestyn wedyn fel rhan o brosiect ymchwil a noddwyd gan Biffaward o dan y Cynllun Credyd Treth Tirlenwi.

Er gwaethaf gwerth y model dros y blynyddoedd diwethaf (gan nad oedd amcangyfrifon ar gael o'r blaen), mae'n bwysig nodi ei gyfyngiadau. Datblygwyd y Model i ddarparu amcangyfrifon o faint o wastraff a gynhyrchid ar lefel sirol a rhanbarthol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu polisi gwastraff. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu hyn felly. Er enghraifft, mae dros hanner yr amcangyfrifon yn seiliedig ar ddull 'o'r brig i lawr' o weithredu (gan ddefnyddio data cyflenwi cenedlaethol) a chyfyngedig fu'r broses o gadarnhau hyn ar ffermydd. Byddai cymhwyso amcangyfrifon gwastraff yr uned ar gyfer ardaloedd daearyddol llai o faint a niferoedd llai o ffermydd (e.e. ar gyfer cyfrif amcangyfrifon ar lefel plwyfi) yn debygol o arwain at lefelau uchel o anghywirdeb.

Nid yw'r Model yn rhoi amcangyfrifon ar gyfer llawer o sgil-gynhyrchion gwastraff y gwyddys amdanynt (ar hyn o bryd) oherwydd diffyg data (e.e. am blaladdwyr heb eu defnyddio). Nid yw'r Model yn rhoi amcangyfrifon o faint o wastraff sy'n deillio o reoli chwyn goresgynnol ar dir amaethyddol. Nid yw'r Model yn rhoi ffigurau ar gyfer stoc trig. Nid yw carcassau anifeiliaid y ceir gwared arnynt yn unol â'r Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn wastraff a reolir o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Model nac mewn unrhyw ddiweddariadau.

Nid yw rhai o'r amcangyfrifon yn Nhabl 1 yn fanwl gan mai cyfyngedig oedd y data dibynadwy a oedd ar gael ac oherwydd amrywiadau mewn arferion ffermio; er enghraifft, mae'r model yn cynnwys data ar gyfer dipiau defaid Cypermethrin. Cafodd y mathau hyn o gynnyrch eu hatal dros dro yn 2006, oherwydd perygl llygredd, a'u tynnu oddi ar y farchnad yn barhaol yn 2012. Felly, mae'n bosibl fod y model yn ystumio'r gwir ddarlun.

Enghraifft arall yw teiars. Dim ond teiars o hen beiriannau wedi'u hadnewyddu neu eu sgrapio sydd yn y model. Ni cheir amcangyfrifon o faint o deiars sy'n cael eu storio ar ffermydd ar gyfer cadw deunydd lapio silwair yn ei le.

Amcangyfrifon yw'r rhain ar gyfer 'sgil-gynhyrchion gwastraff blynyddol' yn ôl ardal. Ni roddir gwybodaeth, er enghraifft, am faint o wastraff sydd wedi'i bentyrru a natur dymhorol sgil-gynhyrchion gwastraff.

**Tabl 1 – Sgil-gynhyrchion gwastraff amaethyddol nad yw'n naturiol – Amcangyfrifon 2010**

Cat Eurost at	Prif Fath Gwastraff	Is-gategori Gwastraff	Unedau	Cymru
7.4	Plastig Amaethyddol	Polypropylen (PP)	Tunnell	1,107
7.4	Plastig Amaethyddol	LDPE	Tunnell	14,342 <sup>1</sup>
7.4	Plastig Amaethyddol	HDPE (rhwydi lapio)	Tunnell	785
7.4	Plastig Amaethyddol	Seiliau claddfeydd silwair (cymysg)	Tunnell	104
7.4	Plastig Amaethyddol	HDPE (Agrocemegau)	Tunnell	131
7.4	Drymiau olew plastig		Tunnell	67
<b>7.4</b>	<b>Cyfanswm Plastig Amaethyddol</b>	<b>Pob dim</b>		<b>16,536</b>
7.2	Deunydd lapio agrocemegol	Papur	Tunnell	45
7.2	Cydau bwyd anifeiliaid	Papur	Tunnell	669
7.2	Cydau hadau	Papur	Tunnell	56
<b>7.2</b>	<b>Cyfanswm Papur Amaethyddol</b>	<b>Papur</b>		<b>770</b>
5	Chwistrellau		Tunnell	5
5	lechyd Anifeiliaid	Plastig	Tunnell	108
5	lechyd Anifeiliaid	Papur	Tunnell	36
5	lechyd Anifeiliaid	Gwydr	Tunnell	108
5	lechyd Anifeiliaid	Rwber	Tunnell	1
<b>5</b>	<b>Cyfanswm lechyd Anifeiliaid</b>	<b>Pob dim</b>	<b>Tunnell</b>	<b>258</b>
6	Gwastraff Peiriannau	Metelau	Tunnell	2,642
6	Olew	Drymiau metel	Tunnell	116
<b>6</b>	<b>Cyfanswm Gwastraff Metelau</b>		<b>Tunnell</b>	<b>2,758</b>
<b>9.11</b>	<b>Cyfanswm Gwastraff Llaeth</b>		<b>Tunnell</b>	<b>3,005</b>
<b>8</b>	<b>CFCau</b>	<b>Cynwysyddion</b>	<b>Tunnell</b>	<b>2.06</b>
3.1	Golchion Plaladdwyr (metrau ciwbig)		Tunnell	4,064
3.1	Dip Defaid	Ffosffadau organig	Tunnell	11,742
3.1	Dip Defaid	Ffosffadau synthetig	Tunnell	5,392
3.1	Dip Defaid	Pryfladdwyr	Tunnell	1
<b>3.1</b>	<b>Cyfanswm dyddodion a gweddillion cemegol</b>		<b>Tunnell</b>	<b>21,199</b>
<b>1.3</b>	<b>Olew</b>		<b>Tunnell</b>	<b>2,862</b>
13	Dalennau asbestos ar gyfer		Tunnell	4,025

toeau			
8.41 Batris		Tunnell	357
8 CFCau	Nwy	Tunnell	0.16
7.3 Teiars		Tunnell	2,931
<b>Cyfanswm</b>			<b>54,705</b>

### Ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd

1. Yn cynnwys halogiad, er enghraifft pridd, graean ac ati.

Mae'r Model yn nodi mai'r math o wastraff amaethyddol sy'n cael ei gynhyrchu fwyaf yng Nghymru (tua 39%) yw dyddodion a gweddillion cemegol yn cynnwys hen ddip defaid yn bennaf (a bydd y rhan fwyaf o hwn yn ddŵr). Gellir cael gwared ar y rhan fwyaf ohono ar dir amaethyddol drwy Drwydded neu Esemptiad Amgylcheddol.

Plastig amaethyddol yw cyfran fawr o'r gwastraff a gynhyrchir ar ffermydd (tua 30%). Deunydd lapio silwair a gorchuddion yw hwn yn bennaf. Cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar ba mor fanwl yw'r ffigwr hwn a'r dulliau o gael gwared ar ddeunydd plastig amaethyddol. Mae ffigurau'r Model yn cynnwys halogiad (pridd, dŵr, gwrtait h ac ati) sy'n gallu bod oddeutu 60% o gyfanswm pwysau'r LDPE a gesglir. Os tynnwn y lefelau halogiad o ddata'r model gwastraff (60% halogiad o 14,342 tonn) byddai'r cyfanswm gros a gynhyrchir yng Nghymru yn 5,736 tonn.

Mae ffigurau diweddaraf British Polythene Industries (BPI) ar gyfer plastig fferm yn awgrymu bod symiau gwahanol i ddata'r model. Yn ôl eu ffigurau, amcangyfrifir bod cyfartaledd gros blynyddol o 8,500 tonn (cyfartaledd ffigurau'r 5 mlynedd diwethaf gan gyfrif gwahaniaethau tymhorol) o wastraff plastig fferm yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru (deunydd lapio silwair a gorchuddion yn bennaf). Mae'r gwahaniaeth yn ychwanegu 2,746 tonn at ffigurau'r model.

Nid yw ffigurau gwastraff amaethyddol Cymru 2010 yn Nhabl 1 yn cynnwys ffigurau ar gyfer tail a slyri gan nad yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel 'gwastraff' os cânt eu gwasgaru ar dir fel gwrtait h er budd amaethyddol. Nododd 'Yn Gall Gyda Gwastraff' fod 5.9 miliwn tonn o dail a slyri wedi'u cynhyrchu yng Nghymru yn 1998. Os caiff gwastraff o'r fath ei ddefnyddio i'w fwydo i system dreulio anaerobig, caiff ei ddosbarthu fel gwastraff wedi'i reoli o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

### 3.2 – Rheoli Gwastraff Amaethyddol

Ar hyn o bryd, mae gan ffermwyr o leiaf bedwar opsiwn wrth reoli gwastraff amaethyddol a gynhyrchir ar y fferm (nid yw pob un yn berthnasol i bob ffrwd wastraff).

- Storio'r gwastraff, nes y caiff ei gasglu, ar y safle lle cafodd ei gynhyrchu am hyd at 12 mis (yn amodol ar gofrestru esemptiad priodol ac amodau). Wedi'r cyfnod hwn, rhaid adfer neu gael gwared ar y gwastraff drwy un o'r opsiynau isod.



- Trosglwyddo'r gwastraff i gwmni rheoli gwastraff neu drydydd parti trwyddedig arall ar gyfer ei adfer neu gael gwared arno oddi ar y fferm mewn safle trwyddedig neu wedi'i esemptio.
- Cofrestru esemptiad er mwyn adfer y gwastraff ar y fferm; neu
- Wneud cais am drwydded neu ganiatâd rheoli gwastraff ar gyfer adfer neu gael gwared ar y gwastraff.

Dangosodd ymchwil diweddar gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP Cymru) (Casgliadau Gwastraff Masnachol, Diwydiannol ac Amaethyddol ar Wahân yng Nghymru 2007/08 - cyhoeddwyd 2011) fod y rhan fwyaf o'r gwastraff a gesglir ac a reolir oddi ar y fferm yn mynd drwy gwmnïau sector preifat (dros ddeg gwaith yn fwy nag sy'n cael ei gasglu/waredu drwy Awdurdodau Lleol). Mae'r data hwn i'w weld yn **Nhabl 2**.

Hefyd, dangosai'r ymchwil mai dim ond un awdurdod lleol o'r 22 yng Nghymru a ddarparai wasanaeth casglu gwastraff amaethyddol ar wahân. Mae rhai awdurdodau lleol yn caniatáu i wastraff ffermydd gael ei gludo i safleoedd amwynder dinesig / canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, er nad yw union nifer yr awdurdodau sy'n caniatáu hyn yn hysbys. Nid yw'n hysbys faint na pha fathau o wastraff amaethyddol sy'n cael ei waredu drwy safleoedd awdurdodau lleol chwaith.

## **Tabl 2 – Cyfanswm Pwysau Gwastraff Masnachol, Diwydiannol ac Amaethyddol a Gasglwyd 2007/08**

	<b>Masnachol (t)</b>	<b>Diwydiannol (t)</b>	<b>Amaethyddol (t)</b>
Cyfanswm awdurdodau lleol	18,580	0*	520
Cyfanswm sector preifat (yn seiliedig ar 28 o gwmnïau)	190,148	46,708	16,020
<b>CYFANSWM<sup>1</sup></b>	<b>208,728</b>	<b>46,708</b>	<b>16,540</b>

Ffynhonnell: WRAP

1 Y cyfansymiau hyn yw'r union gyfansymiau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr. Oherwydd y gyfradd ymateb isel, yn enwedig o blith cwmnïau sector preifat, ni wnaed ymdrech i gyfleu'r data ar raddfa Cymru gyfan.

\* Nid oes rheidrwydd ar awdurdodau lleol i gasglu gwastraff diwydiannol.

Awgrymai'r data o adroddiad WRAP Cymru hefyd fod diffyg capasiti ar gyfer casglu a rheoli gwastraff amaethyddol, ond argymhellai y dylid gwneud gwaith ymchwil pellach i gadarnhau hyn.

O ffigurau'r model gwastraff amaethyddol, mae'n amlwg fod gwahaniaeth enfawr rhwng amcangyfrifon o'r gwastraff amaethyddol a gynhyrchir yng Nghymru sy'n debygol o gael ei reoli oddi ar y fferm (tua 30,500 tonnelli) a faint o wastraff yn ôl adroddiad WRAP Cymru sy'n cael ei gasglu (16,540 tonnelli, er nad dyma'r cyfanswm a gasglwyd drwy Gymru gyfan).

Mae nifer o gwmnïau preifat yn casglu deunydd plastig oddi ar ffermydd drwy Gymru. Darparodd Birch Farm Plastic ddata ar gasgliadau deunydd plastig oddi ar ffermydd yn Sir Gaerfyrddin yn 2013. Y cyfanswm a gasglwyd yw 725 tonnall o 437 o ffermydd – cyfartaledd o 1.6 tonnall y fferm.

Amcangyfrifodd BPI fod cyfanswm blynyddol gros o 4,400 tonnall o wastraff plastig fferm yn cael ei gasglu yng Nghymru ar gyfer ei ailgylchu. Mae hyn yn gadael 4,100 tonnall na ellir rhoi cyfrif amdano bob blwyddyn. Mae'n bosibl ei fod yn mynd i safleoedd tirlenwi, yn cael ei losgi neu'n cael ei allforio'n anghyfreithlon.

Oherwydd bod lefelau uchel o halogiad mewn plastig fferm, nid yw'n addas i'w allforio i gwmnïau ailgylchu tramor. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd yn y prisiau dros y blynyddoedd diwethaf, ceir adroddiadau fod marchnad allforio anghyfreithlon yn datblygu'n gyflym ar gyfer plastig fferm. Gallai hyn arwain at danseilio marchnad blastig fferm y DU yn y dyfodol os yw'n parhau i dyfu.

O ran y ffigurau cynhyrchu gwastraff a welir yn **Nhabl 1**, mae'n debyg fod y rhan fwyaf o wastraff llaeth a gwastraff dyddodion a gweddillion cemegol (cyfanswm o tua 24,000 tonnall) yn cael ei reoli ar ffermydd drwy esemptiadau. Mae hyn yn gadael tua 30,500 tonnall sydd fwy na thebyg yn cael ei reoli oddi ar ffermydd.

Oherwydd diffyg gwybodaeth gadarn ynglŷn â sut y rheolir yr holl wastraff a gynhyrchir yn y sector amaethyddol, nid yw'n bosibl amcangyfrif cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei ddefnyddio ar gyfer adfer ynni, neu sy'n mynd i i safleoedd tirlenwi.

### **3.3 – Gwastraff sectorau eraill sy'n cael ei adfer ar ffermydd**

Arfer cyffredin ar nifer o ffermydd yng Nghymru yw adfer gwastraff o sectorau eraill sy'n cael ei gludo ar eu tir.

Gall mathau, maint a diben gwastraff sy'n cael ei adfer ar ffermydd amrywio'n fawr. Gall gynnwys gwastraff o waith plaenio ffyrdd a gwastraff adeiladu anadweithiol ar gyfer traciau ffermydd, teiars ar gyfer claddfeydd silwair, a sglodion coed (heb eu trin) fel deunydd gorwedd i anifeiliaid, er enghraifft, neu wastraff y gellir ei ddefnyddio fel 'gwrtaith' er budd planhigion a phridd (e.e. slwtsh carthion, gweddillion cynhyrchu bwyd, compost, gweddillion treuliad anaerobig, gwastraff bragdai ac ati). Gellir gwasgaru compost a gweddillion treuliad anaerobig sy'n bodloni'r Protocolau Ansawdd (a thystysgrifau PAS 100 a PAS 110) ar y tir dynodedig fel cynnyrch, ac nid yw'n ddarostyngedig i fesurau rheoli gwastraff. Ni ddylid gwasgaru sglodion o bren wedi'i drin ar dir na'i ddefnyddio fel deunydd gorwedd i anifeiliaid.

O'i wneud yn iawn, gall adfer gwastraff buddiol ar dir fferm greu budd ariannol i'r diwydiant amaethyddol, a chynnig ffordd gynaliadwy o adfer gwastraff o ddiwydiannau a sectorau eraill. Ond gallai fod canlyniadau difrifol i'r gadwyn fwyd, iechyd pridd, cyrsiau dŵr, dŵr daear neu gynefinoedd a rhywogaethau sensitif os nad yw'n cael ei wneud yn iawn.

Ar hyn o bryd, rhaid i ffermwyr sy'n bwriadu adfer gwastraff ar eu tir ddal Trwydded Amgylcheddol neu esemptiad gwastraff wedi'i gofrestru â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn defnyddio'r deunydd. Bydd amodau ynghlwm wrth y Drwydded neu'r esemptiad yn pennu'r mathau a faint o wastraff y gellir ei ddefnyddio i'r diben penodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw data ar y mathau a faint o wastraff a adferir ar dir amaethyddol. Caiff y data gwasgaru ar dir yn **Nhabl 3** a **Thabl 4** ei ddarparu gan y gweithredwyr ar y pryd a dylid ystyried y tunelledd fel uchafsymiau. Gallai newid yn yr amgylchiadau arwain at ostwng y tunelledd, er enghraifft yn sgîl tywydd garw neu ganiatáu'r defnydd o wrtaith nad yw'n wastraff ar yr un tir. Er y byddai angen rhoi gwybod am wastraff ychwanegol, ni fyddai angen gwneud hynny os gwasgerir llai o wastraff.

Dengys y ffigurau fod tua 672,000 tonnell o wastraff wedi'i adfer ar dir amaethyddol yn 2012 a thua 515,000 tonnell yn 2013. Slwtsh o waith gloywi dŵr oedd y ffrwd wastraff y cafwyd fwyaf o hysbysiadau yn ei chylch dros y ddwy flynedd yn ddilynol, sef 54% yn 2012 a 64% yn 2013.

**Tabl 3 – Gwasgaru Gwastraff ar Dir Amaethyddol 2012**

<b>Cod y rhestr wastraff</b>	<b>Maint (tunelli)</b>	<b>Disgrifiad cod gwastraff</b>
02 02 01	26,960	slwtsh o olchion a glanhau
02 02 02	8,300	gwastraff meinweoedd anifeiliaid
02 02 04	29,579	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 03 01	2,019	slwtsh o olchion, glanhau, crafion, allgyrchu a gwahanu
02 03 04	4,112	deunydd anaddas i'w ddefnyddio na'i brosesu
02 03 05	10,310	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 05 01	6,909	deunydd anaddas i'w ddefnyddio na'i brosesu
02 05 02	65,492	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 05 99	10,475	gwastraff heb ei ddynodi fel arall
02 06 01	497	deunydd anaddas i'w ddefnyddio na'i brosesu
02 06 03	2,500	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 07 02	1,212	gwastraff o ddistyllu gwirodydd
02 07 04	8,248	deunydd anaddas i'w ddefnyddio na'i brosesu
02 07 05	2,498	slwtsh o drin elifion ar y safle
03 03 05	14,435	slwtsh dadincio o ailgylchu papur
03 03 11	12,982	slwtsh o drin elifion ar y safle ac eithrio'r rhai sy'n cael sylw yn 03 03 10
07 07 12	4,210	slwtsh o drin elifion ar y safle ac eithrio'r rhai sy'n cael sylw yn 07 07 11
17 05 06	6,386	gwastraff carthu ac eithrio'r rhai sy'n cael sylw yn 17 05 05
19 02 04*	3,506	gwastraff wedi'i gymysgu'n barod sy'n cynnwys o leiaf un gwastraff peryglus
19 05 03	19,611	compost heb ei ddynodi
19 05 99	46,545	gwastraff heb ei ddynodi fel arall
19 06 05	596	hylif o dreuliad anaerobig o wastraff anifeiliaid a llysiâu
19 06 06	1,223	gweddillion treuliad anaerobig o wastraff anifeiliaid a llysiâu
19 08 02	10094	gwastraff tywod
19 09 02	364,968	slwtsh o waith gloywi dŵr

20 02 01	3,300	gwastraff bioddiraddadwy
20 02 02	4,637	pridd a cherrig
<b>CYFANSWM</b>	<b>671,604</b>	

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Nodyn 1. Uchafsymiau yw'r pwysau fel y nodwyd gan y gweithredwr yn y cais am y drwydded.

Mae'n bosibl y bydd y pwysau a wasgerir mewn gwirionedd yn is.

2. Cafwyd 292 o geisiadau gweithredu yn 2012.

## Tabl 4 – Gwasgaru Gwastraff ar Dir Amaethyddol 2013

Cod y rhestr wastraff	Maint (tunelli)	Disgrifiad cod gwastraff
		baw, wrin a thail anifeiliaid (yn cynnwys gwastraff gwellt), elifion, wedi'i drin oddi ar y safle
02 01 06	6,600	
02 02 02	15,320	gwastraff meinweoedd anifeiliaid
02 02 04	4,338	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 03 05	650	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 05 02	67,959	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 05 99	10,475	gwastraff heb ei ddynodi fel arall
02 06 03	2,500	slwtsh o drin elifion ar y safle
02 07 02	433	gwastraff o ddistyllu gwirodydd
02 07 05	313	slwtsh o drin elifion ar y safle
03 03 01	5,000	gwastraff rhisgl a phren
03 03 05	2,571	slwtsh dadincio o ailgylchu papur
03 03 11	3,749	slwtsh o drin elifion ar y safle ac eithrio'r rhai sy'n cael sylw yn 03 03 10
19 05 03	10,885	compost heb ei ddynodi
19 05 99	52,138	gwastraff heb ei ddynodi fel arall
19 09 02	328,705	slwtsh o loywi dŵr
20 02 02	3,388	pridd a cherrig
<b>CYFANSWM</b>	<b>515,024</b>	

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Nodyn: 1 Uchafsymiau yw'r pwysau fel y nodwyd gan y gweithredwr yn y cais am y drwydded.

Mae'n bosibl y bydd y pwysau a wasgerir mewn gwirionedd yn is.

2. Cafwyd 101 o geisiadau gweithredu yn 2013.

Nid oes gennym ffigurau am gapasiti tir amaethyddol yng Nghymru i adfer mathau penodol a chyfeintiau o wastraff er budd amaethyddol, ac a allai gyfrannu tuag at dargedau ailddefnyddio ac ailgylchu sectorau eraill.

## 4 – Rheoleiddio

### Cyflwyniad

Cafodd gwastraff amaethyddol ei eithrio o fesurau rheoli gwastraff am flynyddoedd lawer, ond ers 2006, yn sgil Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2006, mae gwastraff amaethyddol yn gorfod cydymffurfio â'r un mesurau rheoli â phob sector arall o ddiwydiant, a'i fod yn cael ei ddsbarthu fel gwastraff diwydiannol.

Ers cyflwyno'r Rheoliadau, mae unrhyw sylwedd neu wrthrych ar safle a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol neu arddwriaethol y mae'r deiliad yn cael gwared arno, yn bwriadu cael gwared arno, neu y mae gofyn iddo gael ei wared, wedi dod yn ddarostyngedig i fesurau rheoli gwastraff. Gwnaed llosgi heb ei reoli a thipio gwastraff ar ffermydd yn anghyfreithlon.

Fel y nodwyd eisoes, mae'n bwysig nodi **nad yw** tail a slyri wedi'u dosbarthu fel gwastraff o'u defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtaith. Fodd bynnag, dosberthir tail neu slyri sy'n cael ei fwydo i system dreulio anaerobig ar fferm fel gwastraff wedi'i reoli a bydd gofyn cael esemptiad neu drwydded ar ei gyfer.

O dan y rheoliadau, diffinnir gwastraff amaethyddol fel gwastraff a gynhyrchir ar safle a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol yn ôl diffiniad Deddf Amaethyddiaeth 1947.

### 4.1 – Gwastraff peryglus

O 2007 ymlaen, daeth Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005 i gynnwys pob gwastraff amaethyddol. Mae gwastraff peryglus yn creu mwy o berygl i iechyd pobl a'r amgylchedd a cheir mesurau rheoli arbennig ar gyfer ei drin, ei gludo a'i waredu.

Bydd y rhan fwyaf o ffermydd yn cynhyrchu gwastraff peryglus ar ryw adeg neu'i gilydd. Mae gwastraff peryglus yn cynnwys:

- Gwastraff tanwydd ac olew iro.
- Cynwysyddion olew.
- Hylif brêc.
- Gwastraff iechyd anifeiliaid (e.e. dipiau defaid, chwistrellau, nodwyddau ac ati).
- Cynwysyddion plaladdwyr heb eu gwagu'n iawn a'u rinsio deirgwaith.
- Batris.
- Gorchuddion a deunydd toi asbestos.

O dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, rhaid i ffermwyr fod wedi'u cofrestru os ydynt yn cynhyrchu mwy na 500kg o wastraff peryglus mewn cyfnod o 12 mis. Rhaid

i bob ffermwr lenwi **nodyn cludo** cyn symud gwastraff peryglus oddi ar y fferm, pa un a fyddant yn symud y gwastraff eu hunain neu'n trefnu i gludydd gwastraff cofrestredig ei godi.

## **4.2 – Chwyn goresgynnol**

Gall chwyn goresgynnol beri trafferthion mawr ar rai safleoedd amaethyddol ac yn aml, bydd angen ei reoli. Wrth fynd i'r afael â chwyn goresgynnol, mae'n bwysig lleihau'r gwastraff a gynhyrchir sy'n cynnwys planhigion goresgynnol neu eu hadau, eu gwreiddiau a rhisomau (coesau tanddaearol tebyg i wreiddiau). Dylid trin unrhyw wastraff a gynhyrchir ar y safle lle bynnag y bo modd. Rhaid i gludydd gwastraff cofrestredig gludo unrhyw wastraff sy'n mynd oddi ar y safle i safle tirlenwi â'r awdurdod priodol. Wrth gludo planhigion goresgynnol a phridd wedi'i halogi â phlanhigion goresgynnol, rhaid i'r cerbyd fod wedi'i orchuddio neu fod gorchudd wedi'i osod dros lystyfiant a hadau fel na fydd yn chwythu i ffwrdd. Gallai gadael i bridd neu lystyfiant wedi'i halogi chwythu i ffwrdd arwain at erlyniad. Dim ond i safleoedd a awdurdodwyd i'w dderbyn y caiff cludydd gwastraff fynd â'r gwastraff sy'n cynnwys chwyn goresgynnol. Mae'n bosibl y bydd angen hysbysu'r safle gwastraff ymlaen llaw er mwyn gallu paratoi lle ar ei gyfer, gan y bydd angen leinio darn o dir i ffwrdd o'r safle tirlenwi ar gyfer deunydd sy'n cynnwys planhigion goresgynnol.

## **4.3 – Plastig ystwyth amaethyddol**

Mynegwyd pryderon y gallai plastig ystwyth wedi'i halogi o'r sector amaethyddol gael ei allforio'n anghyfreithlon. Mae'n gyfreithlon allforio gwastraff plastig glân unffrwd fel "gwastraff gwyrdd" o dan y Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau oni bai bod angen proses lanhau bellach ar y deunydd cyn ei adfer. Rhaid rhoi gwybod am wastraff plastig ystwyth sydd angen ei lanhau ymhellach o dan y rheoliadau fel "gwastraff heb ei restru" (sy'n galw am gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw). Deallir na fu unrhyw geisiadau dros y deng mlynedd ddiwethaf ar gyfer allforio gwastraff plastig ystwyth amaethyddol heb ei restru. Felly byddai unrhyw ddeunydd halogedig sydd wedi'i allforio wedi'i allforio'n anghyfreithlon. Mae rhai gwledydd sy'n derbyn deunydd o'r fath yn cynnwys lefelau halogi yn eu mesurau rheoli. Mae Tsieina, er enghraifft, (nad yw'n caniatáu unrhyw blastig fferm heb ei lanhau) yn gosod terfyn o 0.5% o halogyddion ar gyfer amryw o fathau o wastraff (yn cynnwys plastig).

## **4.4 – Casglu deunydd eildro ar wahân**

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig (2008/98/EC) yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau drefnu casgliadau ar wahân ar gyfer papur, metel, plastig a gwydr erbyn 1 Ionawr 2015 lle bo'n angenrheidiol ac yn ymarferol iddynt wneud hynny. Cyhoeddwyd canllawiau atodol y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2012. Trosglwyddodd Defra a Llywodraeth Cymru y gofynion hyn drwy Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2012.



Mae Rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad neu drefniant gasglu papur, metel, plastig neu wydr (yn cynnwys o'r sector amaethyddol) drwy gasgliadau ar wahân o 1 Ionawr 2015 ymlaen. Mae'r gofynion hyn yn gymwys lle bydd casglu ar wahân:

- (a) yn angenrheidiol er mwyn darparu deunydd eildro o ansawdd uchel, ac
- (b) yn ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd.

#### 4.5 – Argymhellion gwastraff Bil yr Amgylchedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi argymhellion ar gyfer deddfwriaeth wastraff newydd ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, sef:

- Cyflwyno gofyniad i fusnesau Cymru gadw saith deunydd gwastraff ailgylchadwy ar wahân yn y tarddiad: papur, cerdyn, metelau, plastig, gwydr, bwyd a phren.
- Ymestyn gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ar gyfer casgliadau ar wahân i gynnwys bwyd, cerdyn a phren.
- Gwaharddiad ar losgi mathau penodol o wastraff ailgylchadwy.
- Gwaharddiad ar symud mathau penodol o wastraff ailgylchadwy i safleoedd tirlenwi.
- Gwaharddiad ar gael gwared ar wastraff bwyd drwy'r system garthffosiaeth.

Bydd yr argymhellion hyn yn effeithio ar bob busnes, gan gynnwys y sector amaethyddol.

#### 4.6 – Dyletswydd gofal

Mae'n ddyletswydd ar bob busnes amaethyddol bellach i gydymffurfio â 'Dyletswydd Gofal'. Cyfrifoldeb yw hwn i sicrhau na fydd gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei gludo neu ei waredu yn niweidio'r amgylchedd. Mae'r ddyletswydd gofal yn gymwys ar gyfer **gwastraff wedi'i reoli** (sy'n cynnwys gwastraff masnachol, diwydiannol ac o'r cartref, yn ogystal â gwastraff peryglus/arbennig, gwastraff amaethyddol a gwastraff gwaith adeiladu a dymchwel).

Trwy'r Ddyletswydd Gofal, bydd busnesau amaethyddol yn benodol gyfrifol am y gwastraff o'r adeg y byddant yn ei gynhyrchu nes y caiff ei drosglwyddo i berson awdurdodedig. Hefyd, rhaid i ffermwyr wneud yn siŵr mai i rywun ag awdurdod i'w gymryd yn unig y byddant yn ei drosglwyddo - cludydd gwastraff wedi'i reoli sy'n gofrestredig, neu wedi'i esemptio rhag cofrestru. Os yw'r sawl y trosglwyddant y gwastraff iddo yn cael gwared arno mewn modd anghyfreithlon, gallai'r sawl a gynhyrchodd y gwastraff gael ei wneud yn gyfrifol, ei erlyn a'i ddirwyo. Rhaid cadw cofnodion o'r holl wastraff a drosglwyddir – Nodyn Trosglwyddo Gwastraff.

## 4.7 - Eithriadau

Er mwyn cadw, trin neu gael gwared ar wastraff, rhaid i ffermwyr feddu ar Drwydded Amgylcheddol neu esemptiad.

Gellir cofrestru'r rhan fwyaf o weithgareddau sy'n cynnwys storio, ailgylchu a chael gwared ar wastraff fferm fel rhai wedi'u heithrio o'r angen i feddu ar drwydded amgylcheddol. Pan gyflwynwyd y Rheoliadau yn 2006, roedd gan ffermwyr 12 mis i gofrestru esemptiad rhag trwyddedu rheoli gwastraff gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyflwynwyd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 ar 6 Ebrill 2010. Newidiodd y rhain y drefn ar gyfer eithrio rhag mesurau gwastraff. Daeth esemptiadau amaethyddol a gofrestrwyd cyn 6 Ebrill 2010 i ben ar 30 Medi 2013. Erbyn 1 Hydref 2013, daeth yn ofynnol i ffermwyr Cymru gofrestru am esemptiadau newydd drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Rhennir yr esemptiadau gwastraff newydd yn 5 categori:

- Defnyddio gwastraff – U
- Trin gwastraff – T
- Cael gwared ar wastraff – D
- Storio gwastraff – S
- Esemptiadau na ellir eu cofrestru – esemptiadau nad yw'r Gyfarwydeb Fframwaith Gwastraff yn rhoi sylw iddynt.

## 4.8 – Tipio anghyfreithlon

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Cymru Ddi-dipio*' ym mis Tachwedd 2012. Mae'r ddogfen yn nodi safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru o ran tipio anghyfreithlon a'r hyn y mae'n argymhell ei wneud yn y dyfodol.

Cronfa ddata genedlaethol o achosion o dipio anghyfreithlon a champau gorfodi yw *Fly Capture*; fe'i sefydlwyd yn 2004 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae *Fly Capture* yn cofnodi'r achosion a chostau tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a wynebwyd gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er bod ystadegau *Fly Capture* yn ymddangos yn gadarnhaol a llawer wedi'i wneud eisoes yng Nghymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, nid yw *Fly Capture* yn datgelu gwir raddau tipio anghyfreithlon yng Nghymru am nad yw'n cynnwys tipio anghyfreithlon ar dir preifat. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn ymchwilio i ddigwyddiadau ar dir preifat, ond nid oes rhwymedigaeth arnynt i glirio gwastraff o'r fath. Pan fo tipio anghyfreithlon yn digwydd ar dir preifat, y tiffeddiannwr sy'n gyfrifol am dalu'r gost o glirio'r gwastraff a gall hon fod yn sylweddol. Mae tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn cael ei hystyried yn broblem fawr i dirfeddianwyr a ffermwyr.

Roedd adroddiad y Tasglu Rheoleiddio Ffermio ar gyfer DEFRA a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011 yn mynegi pryder ynglŷn â graddau tipio anghyfreithlon ar dir amaethyddol a'r costau clirio sy'n gysylltiedig â hyn. Argymhellodd hefyd y dylid ailddosbarthu deunydd sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ar ffermydd fel gwastraff y cartref a dylai fod yn gymwys i'w waredu'n ddi-dâl mewn safleoedd amwynder dinesig. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau tirlfeddianwyr fel NFU Cymru, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyn o bryd er mwyn cynyddu nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddir yn eu cylch a rhannu arfer gorau ynglŷn â sut i leihau'r perygl o dipio anghyfreithlon.

#### 4.9 – Treulio anaerobig

Mae gan y sector amaethyddol rôl bwysig yn y gwaith o adfer a thrin gwastraff bioddiraddadwy yng Nghymru. Mae'r targedau a osodwyd yn 'Tuag at Ddyfodol Diwasttraff' ar gyfer lleihau'r gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi wedi cymell mwy o ddefnydd o dreulio anaerobig yng Nghymru yn ddiweddar, ac yn y blynyddoedd i ddod.

Ceir dau brif faes y gall y sector amaethyddol gyfrannu tuag atynt: -

- **Defnyddio gweddillion treuliad anaerobig** – un ffordd amlwg y gall amaethyddiaeth gyfrannu at y system dreulio anaerobig yw defnyddio cynnyrch gweddillion treuliad anaerobig yn lle gwrtaitth wedi'i weithgynhyrchu. Gallai hyn gynorthwyo'r sector amaethyddol i gyrraedd targedau lliniaru effeithiau newid hinsawdd drwy ddadleoli a defnyddio carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwrtaitth. Hefyd, gallai greu budd ariannol posibl i'r diwydiant amaethyddol drwy ostwng costau gwrtaitth.
- **Treuliad anaerobig ar y fferm** – mae cyflwyno cymhellion drwy'r tariff cyflenwi trydan (FITS) a'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI) wedi gwneud treuliad anaerobig yn opsiwn mwy deniadol i rai ffermydd. At ei gilydd, mae treuliad anaerobig ar ffermydd yn golygu defnyddio tail, slyri a/neu gnydau wedi'u tyfu'n benodol ar gyfer system dreulio anaerobig. Gellir defnyddio planhigion o'r fath o dan esemptiad T24 (gydag amodau) gan CNC. Byddai'n rhaid cydymffurfio â gofynion Trwyddedu Amgylcheddol i allu defnyddio mathau eraill o borthiant ar gyfer systemau treulio anaerobig ar ffermydd.

Mae'n bosibl y gellid ehangu'r diddordeb mewn treulio anaerobig ymhellach yn dilyn argymhellion o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd ar gyfer 2014-2020 a allai gefnogi systemau treulio anaerobig ar ffermydd ac yn y gymuned.

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn bwriadu cefnogi gweithgareddau yn y gymuned ac ar ffermydd a gallai hyn gynnwys datblygu cadwyni cyflenwi lleol a buddsoddiadau ar raddfa fach yn y seilwaith ynni adnewyddadwy a chmau arbed ynni. Bydd pob ffurf ar ynni amgen yn cael ei ystyried, yn cynnwys biomas, solar ac ynni dŵr a hefyd, (yn amodol ar gyfyngiadau Cymorth Gwladwriaethol), cymorth tuag at systemau treulio anaerobig ar ffermydd fel modd o ddelio â gwastraff anifeiliaid a

gwastraff gwyrdd, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu cadwyni cyflenwi ar gyfer gwastraff gwyrdd.

#### **4.10 – Rheoleiddio treuliad anaerobig**

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni chaiff tail, slyri ac elifion silwair eu hystyried yn wastraff os cânt eu defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtaith ar y tir. Os yw tail, slyri neu elifion silwair yn cael ei ddefnyddio mewn systemau treulio anaerobig, mae'n wastraff, a daw'n ddarostyngedig i fesurau rheoleiddio.

Ni fydd gweddillion treuliad anaerobig yn cael eu hystyried yn wastraff:

- Os mai'r unig ddeunydd crai a ddefnyddir yw tail a slyri a bod y gweddillion yn cael eu gwasgaru fel gwrtaith ar dir amaethyddol.
- Os yw'r deunydd crai o dail a slyri yn cael ei gymysgu â chnydau a dyfwyd yn benodol ar gyfer system dreulio anaerobig a bod y gweddillion yn cael eu gwasgaru fel gwrtaith ar dir amaethyddol.

Os yw porthiant tail a slyri wedi'i gymysgu â gwastraff porthiant arall, yna bydd y gweddillion yn wastraff ac yn ddarostyngedig i fesurau Trwyddedu Amgylcheddol.

Datblygwyd Protocol Ansawdd ar gyfer Gweddillion Treuliad Anaerobig (yn cynnwys ardstyiad PAS110). Os cyrhaeddir y safon ansawdd, ni fydd y gweddillion sy'n deillio o'r treuliad anaerobig yn cael ei ystyried yn wastraff a gellir ei wasgaru ar dir fel gwrtaith heb fod angen Trwydded Amgylcheddol neu esemptiad. Mae hefyd yn sicrhau bod gan ffermwyr sy'n defnyddio gweddillion treuliad anaerobig gynnyrch o ansawdd cyson sy'n addas i'r diben.

#### **4.11 – Y sefyllfa gyfredol – treuliad anaerobig yng Nghymru**

Ar hyn o bryd (mis Medi 2013) mae hyd at 8 o safleoedd treulio anaerobig yn gweithredu yng Nghymru. Mae nifer o safleoedd eraill wrthi'n cael eu hadeiladu a dônt yn weithredol o fewn y 12-18 mis nesaf.

Dyma'r mathau gwahanol o safleoedd sy'n weithredol:

- 3 – Amaethyddol (yn defnyddio tail, slyri a/neu gnydau ar gyfer systemau treulio anaerobig ar ffermydd).
- 4 – Cymunedol (yn defnyddio gwastraff bwyd).
- 1 – Diwydiannol (yn cael ei ddefnyddio i drin gwastraff ar y safle).

Noder nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys safleoedd treuliad anaerobig y Diwydiant Dŵr, sydd â 13 o safleoedd eraill yn weithredol yng Nghymru.

## **5 – Camau ar waith i sicrhau bod gwastraff amaethyddol yn cael ei reoli'n fwy cynaliadwy**

### **5.1 – Gwastraff amaethyddol – cysylltiadau â chynlluniau rheoli tir a chynlluniau cymorth.**

Isod, ceir crynodeb o'r gofynion rheoli gwastraff sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli tir a chynlluniau cymorth cyfredol.

### **5.2 - Trawsgydymffurfio**

Y ddau brif faes o dan y trefniadau trawsgydymffurfio sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yw: -

- SMR 2 – Diogelu dŵr daear rhag llygredd.

Mae'r gofyniad hwn yn cysylltu â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 ac mae'n cynnwys cael gwared ar sylweddau peryglus sy'n llygru ar dir (e.e. dipiau defaid, plaladdwyr) a'r gofyniad i gael trwydded briodol gan CNC.

- SMR 3 – Diogelu'r Amgylchedd, yn arbennig priddoedd, pan ddefnyddir slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth.

Nod y gofyniad yw sicrhau nad oes unrhyw berygl i iechyd pobl, anifeiliaid na phlanhigion wrth ddefnyddio slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth, ac na fydd yn niweidio pridd. Mae'r gofynion yn dilyn y Matrics Slwtsh Carthion a gofynion cyfreithiol.

### **5.3 - Tir Gofal**

O dan ofynion Cod y Fferm Gyfan Tir Gofal, roedd hi'n ofynnol i bob deiliad cytundeb gadw ei fferm yn glir o wastraff a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff fferm. Nodwyd manau ar y fferm a oedd yn peri pryder ar fapiau cytundebau ac roedd gofyn i ffermwyr gael gwared ar wastraff a nodwyd o fewn y 6 mis cyntaf ar ôl arwyddo'r cytundeb (a/neu gytuno ar fannau addas ar gyfer storio gwastraff). Methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwn oedd un o'r prif resymau dros gadw taliadau Tir Gofal yn ôl neu osod cosbau.

Ar hyn o bryd, mae 3,000 o ffermydd yn rhan o Tir Gofal, yn cynnwys 300,000 hectar o dir. Bydd y rhan fwyaf o gytundebau Tir Gofal yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2013.

### **5.4 - Tir Cynnal**

Fel gyda Tir Gofal, mae gofyn i bawb sydd â chytundeb Tir Cynnal gadw'r fferm yn glir o wastraff ac i beidio â gadael gwastraff ar dir. Daw mwyafrif y cytundebau Tir Cynnal i ben (tua 4,500) hefyd.

## 5.5 - Glastir

Yn ôl gofynion Cod y Fferm Gyfan Glastir Sylfaenol, rhaid cadw tir y contract yn glir o sbwriel fel hen gerbydau, hen ddeunydd ffensio, deunydd lapio plastig a hen gyfarpar domestig. Dylid clirio unrhyw sbwriel oddi ar y safle cyn y daw'r Contract yn weithredol.

## 5.6 – Ardystiad Organig a Gwarant Fferm

Mae'r rhan fwyaf o ofynion yr Ardystiad Organig yn annog ffermwyr i leihau llygredd a gwastraff ar eu ffermydd. Hefyd, cânt eu hannog i ailgylchu lle bynnag y bo modd neu i gael gwared ar wastraff yn y ffordd briodol yn ôl y gofynion cyfreithiol. Mae safonau ardystiad organig yn cynnwys cyfyngiadau llym ar wastraff a brynir i mewn ac a waredir ar ffermydd fel gwrtaiith (e.e. dim gwastraff o ladd-dai).

Mae angen hefyd i aelodau o gynlluniau Gwarant Fferm ateb gofynion cyfreithiol wrth storio a chael gwared ar wastraff amaethyddol. Gellir cadarnhau bod ffermydd yn cydymffurfio yn ystod archwiliadau (e.e. gweld copïau o Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff ac ati). Caiff rheoli gwastraff sylw hefyd yng Nghynlluniau Rheoli Gwastraff Fferm (sy'n nodi mathau o wastraff a gynhyrchir, y dull o gael ei wared ac unrhyw esemptiadau neu drwyddedau a gofrestrwyd) nifer o'r Cynlluniau Gwarant Fferm.

## 5.7 – Cyswllt Ffermio

Trwy Cyswllt Ffermio, gall ffermwyr hawlio 80% o gost cyngor ffermio a chymorth mentora naill ai drwy Gynllun y Fferm Gyfan neu'r Gwasanaeth Cyngori Ffermwyr.

Mae cyngor ar reoli gwastraff yn bwnc y gellid gwneud cais i'w drafod. Yn rhaglen gyfredol Cyswllt Ffermio (2008 -2013) daeth dros 6,000 o geisiadau i law am gyngor ffermio a chymorth mentora, ond ni chyflwynwyd **unrhyw** geisiadau am gyngor ar wastraff amaethyddol. Mae galw pendant am gyngor ar reoli tail/slyri a chynlluniau rheoli maethynnau (nid yw tail/slyri yn cael eu hystyried yn 'wastraff amaethyddol').

## 6 – Ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar wastraff amaethyddol

Isod, nodir y prif ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i ffermwyr ynglŷn â gwastraff amaethyddol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cyfreithiol, a chyngor a chanllawiau ar reoli gwastraff fferm. Cyfeiriadau at wefannau yw'r rhain.

- **Llywodraeth Cymru**

Codau Ymarfer Amaethyddol Da (Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru).  
Gwybodaeth a chyngor ar y gofynion cyfreithiol ac arferion da er mwyn lleihau'r perygl o lygru. Gweler Rhan 3 (Rheoli Adnoddau) Adran 7 (Rheoli Gwastraff) am wybodaeth. Deallir y bydd y Codau Ymarfer yn cael eu diweddarau yn ystod 2014.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/codesofgoodagripractise/110420cogapintro/?skip=1&lang=cy>

Cyngor a chanllawiau cyffredinol ar reoli, lleihau a deddfwriaeth gwastraff, gwybodaeth am 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a chynlluniau sector.

[http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste\\_recycling/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/?skip=1&lang=cy)

Ffermrwyd Cymru – gwybodaeth am Reoliadau sy'n berthnasol i ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru

[http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste\\_recycling/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/?skip=1&lang=cy)

Gwybodaeth am Ffermio a Chynlluniau. Gwybodaeth a chanllawiau ar gynlluniau ffermio (e.e. trawsgydymffurfio, Glastir ac ati).

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/?skip=1&lang=cy>

- **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Cyngor ar esemptiadau fferm a gallu i gofrestru esemptiadau ar lein. Cyngor a chanllawiau cyffredinol ar reoli gwastraff, trwyddedau amgylcheddol a nodiadau trosglwyddo gwastraff.

[http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/waste/waste-permitting/farm-exemption/?lang=cy#.U0vpR\\_lV2s](http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/waste/waste-permitting/farm-exemption/?lang=cy#.U0vpR_lV2s)

- **Asiantaeth yr Amgylchedd**

Tudalennau ar Wastraff Amaethyddol yn cynnwys Rheoleiddio, esemptiadau, symud gwastraff, gwastraff peryglus, canllawiau ar wastraff amaethyddol a gwasgaru gwastraff ar y tir.

<http://www.environment-agency.gov.uk/business/sectors/32777.aspx>

- **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)**

Cyngor a chanllawiau ar leihau gwastraff fferm.

<https://www.gov.uk/minimising-farm-waste-composting-and-recycling>

- **WRAP Cymru**

Cyngor a chanllawiau ar y defnydd o gompost a gweddillion treuliad anaerobig mewn amaethyddiaeth.

<http://www.wrapcymru.org.uk/category/sector/agriculture>

## Atodiad A – Diffiniadau

### Gwastraff

Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (Erthygl 3 (1)) yn diffinio gwastraff fel sylwedd neu wrthrych y mae'r deiliad cael gwared arno, yn bwriadu cael gwared arno, neu y mae gofyn iddo gael gwared arno. Wedi'u heithrio rhag mesurau rheoli o dan y Gyfarwydddeb, mae deunydd carthion, gwellt ac unrhyw ddeunydd amaethyddol neu goedwigaeth naturiol arall nad yw'n beryglus sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, coedwigaeth neu gynhyrchu ynni fel biomas drwy brosesau neu ddulliau nad ydynt yn gwneud niwed i'r amgylchedd neu'n peryglu iechyd pobl; sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan cynnwys cynnyrch wedi'i brosesu, sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad (CE) Rhif 1774/2002, ac eithrio rhai y bwriedir eu llosgi, eu cludo i safle tirlenwi neu eu defnyddio fel bionwy neu mewn safle compostio; carcasau anifeiliaid sydd wedi marw heb gael eu difa, yn cynnwys anifeiliaid a laddwyd i ddileu clefydau episootig, ac y ceir gwared arnynt yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1774/2002.

### Gwastraff Amaethyddol

Gwastraff amaethyddol yw unrhyw sylwedd neu wrthrych ar safle a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol neu arddwriaethol y mae'r deiliad yn cael gwared arno, yn bwriadu cael gwared arno, neu y mae gofyn iddo gael gwared arno. Mae'n wastraff a gynhyrchwyd yn benodol drwy weithgareddau amaethyddol.

Mae diffiniad cyfreithiol gwastraff diwydiannol yn cynnwys gwastraff oddi ar safleoedd a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth yn yr ystyr a roddwyd i hynny gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947<sup>1</sup>.

### Y Ddeddf Amaethyddiaeth

Mae Deddf Amaethyddiaeth 1947 yn diffinio "amaethyddiaeth" fel maes sy'n cynnwys: "horticulture, fruit growing, seed growing, dairy farming and livestock breeding and keeping, the use of land as grazing land, meadow land, osier land, market gardens and nursery grounds, and the use of land for woodlands where that use is ancillary to the farming of the land for other agricultural purposes, and 'agriculture' shall be constructed accordingly."

At ddibenion esemptiadau gwastraff, rhoddir i "*agricultural land*" yr ystyr a roddwyd iddo yn adran 109 (1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 ac mae'n cynnwys tir ar gyfer cynhyrchu pren a chnydau amaethyddol heblaw bwyd.

Ers 2006, mae gwastraff amaethyddol wedi gorfod cydymffurfio â'r un mesurau rheoli â'r rhai a fu'n berthnasol i sectorau eraill ers blynyddoedd lawer. Ar 15 Mai 2006, gwnaed llosgi heb ei reoli a thipio gwastraff ar ffermydd yn anghyfreithlon.

---

1. Adran 75 (6)(e) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.



## **Tail a slyri**

Nid gwastraff yw tail a slyri o'u defnyddio'n uniongyrchol fel gwrtailth ar y fferm lle cânt eu cynhyrchu. Nid yw hyn yn cynnwys eu defnydd ar fferm wahanol i'r un y tarddant ohoni. Fodd bynnag, caiff tail neu slyri sy'n bwydo i system dreulio anaerobig ei ddsbarthu fel gwastraff wedi'i reoli, a bydd gofyn cael esemptiad neu drwydded ar ei gyfer.

## **Gwastraff wedi'i reoli**

Caiff Gwastraff wedi'i Reoli ei ddiffinio yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Rheoli Gwastraff 2012 fel gwastraff cartref, diwydiannol a masnachol.